1.27

# MYFYRDOD AR
# Y CLOC YN TARO.

——:o:——

Ton—"*Bryniau'r Iwerddon.*"

——:o:——

PAN oeddwn i yn myfyrio,
  A'r Cloc yn taro un,
Meddyliais mai addoli
  Un Duw a ddylai dyn ;
Ac hefyd ei was'naethu,
  A'i galon oll yn llon,
Tra paro dyddiau'i fywyd
  Ef ar y ddaear hon.

Pan glywais i fy awrlais
  Yn taro dau'r prydnawn,
Fe redodd fy myfyrdod
  At ddau gyfamod llawn,
A'u cynwys yn y Bibl,
  Dau Destamentau yw,
A wnaed gan ysprydoliaeth
  Y gwir a'r bywiol Dduw.   2 Tim. iii. 6.

Pan glywais Gloc yn taro
  Tri wrth fyn'd yn mlaen,
Meddyliais am dri pherson,
  Tad, Mab, ac Yspryd Glân,
A rhai'n yn un Jehofah,
  Er tragwyddoldeb draw,
Ac felly byth i bara,
  I'r tragwyddoldeb ddaw.   1 Ioan v. 7.

Pan glywais i yr awrlais
  Yn taro bedair gwaith,
Daeth pedwar Efangylwr
  I'm meddwl ar fy nhaith,
A'r newydd am drugaredd
  Yn yr Efengyl gu,
A maddeu'r holl anwiredd,
  I mi, bechadur du.

Wrth i mi glust ymwrando,
  A'r Cloc yn taro pump,
Meddyliais am bum' morwyn
  Heb olew yn eu lamp,
A'r priod fab yn dyfod,
  A'r rhai oedd barod bwys
A aethant i'r briodas
  A chauwyd yno'r drws. Mat. xxv. 2.

Pan oedd y Cloc yn taro,
  Fel hyn y chweched waith
'Rwy'n cofio'r greadigaeth
  Y nef a'r ddaear faith,—
Y môr a'r oll sydd ynddo,
  A phob creadur byw,
Yn yspaid y chwe' diwrnod,
  A wnaeth yr Arglwydd Dduw. Ecs. xx. 11.

Wel dyma fyfyr eto,
  A'r cloc yn taro saith,
Y seithfed dydd gorphwysodd
  Creawdwr daear faith,—
A dylem ninau gadw
  Y Sabbath, sanctaidd yw,
Mewn meddwl, gair, a gweithred,
  Yn ol gorchymyn Duw. Ecs. xx. 11.

x2c5197913

Wrth i mi ddyfal wrando,
  A rhifo wyth yn siwr,
Meddyliais am wyth enaid
  Achubwyd rhag y dw'r,
Pan ddaeth y diluw creulon,
  Ar anwir ddynion byd,
A'u boddi yn yr eigion,
  Yn gyfan oll i gyd. Gen. vii.

Daeth i fy meddwl cyflym,
  A'r Cloc yn taro naw,
Mai'r nawfed awr bu Iesu
  Ar ben Calfaria draw,
Yn d'weyd y gair " Gorphenwyd,"
  Atebwyd yno'n llawn,
A'r Tad yn gwaeddi " Gollwng
  E'n rhydd, mi gefais iawn." Mat. xxvii.

'Rwy'n meddwl wrth ymwrando,
  A'r Cloc yn taro deg,
Fod genyf ddeg gorchymyn
  I'w cadw yn ddi freg,
A roed ar fynydd Sinai,
  Gan y Jehofah mawr,
Yn rheol bywyd imi,
  Tra byddwyf ar y llawr. Ecs. xx.

Yr amser sydd yn pasio,
  Mae'n taro un-ar-ddeg,
A mi heb fod yn gweithio
  Un awr o'r rhai'n yn deg ;
Mae'n rhyfedd fod gwahoddiad
  I'r fath bechadur mawr,
I dd'od i'r winllan eto,
  A'm haul bron myn'd i lawr. Mat. xx.

Mae Arglwydd mawr y winllan
  Yn galw arnoch, Dewch
Beth bynag a f'o cyfiawn
  O gyflog, chwi a'i cewch,
Er bod eich penau'n llwydion,
  A'ch cefnau'n crymu i lawr,
Mae galwad arnoch eto,
  O dewch i weithio awr.

Pan glywai daro deuddeg,
  'Rwy'n rhedeg yn fy mlaen,
At ddeuddeg ffynon Elim,
  A'u dyfroedd gloyw glân,—
A'r deuddeg Apostolion,
  Oedd yma ar y llawr;
A'r môr a'r deuddeg ychain
  Oedd yn y deml fawr. Ecs. iv. 24; Mat. x. 1.

Mae eto bren y bywyd,
  A'i ffrwyth o ddeuddeg rhyw;
A deuddeg llwythau Israel,
  A ddaeth drwy'r môr yn fyw;
Ac i yspio Canaan
  Anfonwyd deuddeg gŵr,
A'r deuddeg colofn godwyd
  Yn yr Iorddonen ddw'r.
Dat. xxii. 2. Ecs. xiv. 21.

Yn ddeuddeg aeth yn barod,
  A darfod wnaeth y dydd,
A'm corph sy'n myn'd i orphwys
  Yn awr i'r gwely pridd,
A'm henaid yn ehedeg
  I fyd ysbrydion byw,
Lle byddaf yn drag'wyddol,
  Yn ngwydd fy Arglwydd Dduw.

AZARIAH SADRACH (1774-1844).

J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul. 1908.